



Asiantaeth yr
Amgylchedd Cymru
Environment
Agency Wales

cyfoethogi... gwella... glanhau... adfer...
newid... mynd i'r afael... amddiffyn... lleihau...
crëa le gwell... dylanwadu... ysbrydoli...
cynghori... rheoli... addasu

Tynnu pysgod gyda gwialen a llinell

Ymgynghoriad is-ddeddf pysgodfeydd cenedlaethol

Dyddiad Dechrau: 22 Mehefin 2009
Dyddiad Cau: 14 Medi 2009

Rhif cyfeirnod/cod (Cod Sector)

Asiantaeth yr Amgylchedd ydym ni. Ein gwaith ni yw gofalu am eich amgylchedd a'i wneud yn **lle gwell** – i chi, ac i genedlaethau'r dyfodol.

Eich amgylchedd yw'r aer a anadlwch, y dŵr a yfwch a'r ddaear y cerddwch arni. Gan weithio gyda busnesau, y Llywodraeth a chymdeithas yn gyfan, rydym yn gwneud eich amgylchedd yn lanach ac yn iachach.

Asiantaeth yr Amgylchedd. Allan yn y maes, yn gwneud eich amgylchedd yn lle gwell.

Cyhoeddwyd gan:

Asiantaeth yr Amgylchedd
Rio House,
Waterside Drive, Aztec West
Almondsbury, Bryste BS32 4UD
Ffôn: 0870 8506506
Ebost: enquiries@environment-agency.gov.uk
www.environment-agency.gov.uk

© Asiantaeth yr Amgylchedd

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhychu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Cymryd stoc

O fewn y gymuned bysgota ceir amrywiaeth barn eang ynglŷn â ddylai pysgotwyr gael yr hawl i fynd â physgod breision y maent yn eu dal. Mae'r ddeddf ynglŷn â thynnu pysgod yn un gymhleth, ac o dan y ddeddf bresennol, mae ein pwerau parthed mynd â physgod breision a llyswennod yn gyfyngedig. Bydd y Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir yn gwella ein pwerau yn ymwneud ag is-ddeddfau pysgodfeydd ac yn ein caniatáu i ddefnyddio'r is-ddeddfau i reoli tynnu pysgod breision. Wrth wneud hyn, mae gofyn cydbwysu'r angen i amddiffyn stociau pysgod a hawliau perchenogion a rheolwyr pysgodfeydd i benderfynu sut y dylid rheoli eu pysgodfeydd. Mae angen barn y gymuned bysgota arnom i'n cynorthwyo i daro'r cydbwysedd cywir.

Mae stociau llyswennod wedi dirywio'n aruthrol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn gweithredu i newid y sefyllfa hon drwy reoleiddio pysgodfeydd llyswennod masnachol yn dynnach a thrwy wella cynefin i llyswennod, a'u mynediad iddo. Ynghyd â'r newidiadau hyn, mae angen i ni hefyd ystyried rheoli bysgota llyswennod. Awgrymwn y dylid cyflwyno dal a rhyddhau gorfodol ar gyfer llyswennod.

Mae'r Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir hefyd yn ymestyn ein pwerau is-ddeddfu i rywogaethau nad oes gennym unrhyw gyfrifoldeb drostynt ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cynnwys y ddwy rywogaeth o gwangod mudol, sydd wedi'u hamddiffyn o dan y ddeddf gadwraeth. Mae eisoes yn anghyfreithlon i bysgota am y rhywogaethau prinnaf, sef yr Herlod, ac mae'n debygol y bydd hyn hefyd yn berthnasol yn fuan iawn i'r gwangen. Oherwydd hyn, awgrymwn ein bod yn defnyddio ein pwerau newydd i sicrhau fod unrhyw gwangod a ddaliwyd gan wialen a llinell yn cael eu dychwelyd i'r dŵr. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n eglur bod unrhyw gwangod a ddelir mewn camgymeriad gan enweirwyr yn cael eu dychwelyd yn fyw.

Mae'r is-ddeddfau hyn yn ddibynnol ar newidiadau i'r ddeddfwriaeth bysgodfeydd gyfredol y mae'r llywodraeth yn eu hargymhell drwy'r Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir. Ni fydd modd i ni gyflwyno'r is-ddeddfau newydd hyn hyd nes y bydd y Mesur hwn yn ei le.

Rydym hefyd yn ymgynghori ar is-ddeddfau newydd i waredu'r tymor gwaharddedig ar gyfer eogiaid dŵr llonydd a brithyll brown ac i reoleiddio pysgodfeydd llyswennod a llyswennod ifainc masnachol. Gellir cael golwg ar yr ymgynghoriadau hyn yn:

<http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/consultations/36989.aspx>. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn ffurfio rhan o ddiwygiad ehangach o ddeddfwriaeth bysgodfeydd yr ydym yn ei enwi yn '*Bysgod i'r Dyfodol*'. Mae hyn yn cwmpasu'r gwelliannau i'n trefn drwyddedu, y modd yr ydym yn rheoli ymdrechion bysgota, rheoliad llwybrau pysgod, y modd yr ydym yn reoleiddio symudiadau pysgod byw a mesurau penodol i amddiffyn llyswennod, eogiaid, a sewin. Gellir canfod mwy am '*Bysgod i'r Dyfodol*' yn www.environment-agency.gov.uk/fish.

Adrian Taylor

Rheolwr Polisiâu Pysgodfeydd

1. Cyflwyniad

Yr hyn mae'r ymgynghoriad hwn yn ei gwmpasu

Mae'r ymgynghoriad hwn ond yn cwmpasu tynnu pysgod a ddelir gyda gwialen a llinell. Mae'n ymwneud â physgod breision, penllwydion a rhai pysgod mudol. Mae tynnu eog, sewin a brithyll eisoes yn cael ei reoleiddio drwy'r is-ddeddfau cenedlaethol a lleol ac nid yw'n gynnwysedig yma.

Mae tynnu unrhyw bysgod gyda rhwydi, drwy faglu a physgota-trydanol yn cael eu rheoli'n llym drwy drwyddedu neu awdurdodiad arall ac hefyd nid yw'n gynnwysedig yma.

Weithiau caiff pysgod eu tynnu allan gyda gwialen a llinell er mwyn eu stocio mewn dyfroedd eraill. Mae'r stocio pysgod dilynol yn cael ei reoleiddio ar wahân, a chyfeirir ato'n aml fel "cydsyniad Adran 30". Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu stocio.

Pam rydym ni'n ymgynghori?

Credwn fod angen arolygiad tynnach a mwy cyson ar yr arfer o dynnu pysgod gyda gwialen a llinell. Ond hoffem dderbyn barn perchenogion pysgodfeydd, clybiau physgota, pysgotwyr unigol ac unrhyw grŵp arall sydd â diddordeb. Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i lunio is-ddeddfau newydd a fydd yn gosod y rheolau i bysgotwyr ynglŷn â chymryd pysgod.

Pam fod angen is-ddeddfau newydd arnom?

Bu pryder cynyddol o fewn y gymuned bysgota bod tynnu pysgod breision gyda gwialen a llinell yn niweidiol i bysgodfeydd. Gwyddwn fod rhai pysgod breision yn cael eu cymryd i'w bwyta a cheir tystiolaeth fod pysgod rhagorol yn cael eu cymryd ar gyfer stocio anghyfreithlon mewn dyfroedd eraill. Pa effaith a gaiff hyn, ac a oes angen cyflwyno cyfyngiadau?

Yn gyffredinol, mae pysgod breision yn epilwyr toreithiog ac yn bridio'n gyflym, gan ailgyflenwi colledion yn gyflym. Mae tynnu gyda gwialen a llinell yn annhebygol iawn o figwth eu bodolaeth, yn wir, weithiau gall tynnu pysgod mawrion annog amlder rhai llai. O fewn terfynau rhesymol, mae mynd â physgod breision yn annhebygol o effeithio ar gyfanswm niferoedd. Ond, gall effeithio ar ffurf y stoc ac felly, o ganlyniad, gall gael effaith sylweddol iawn ar y bysgodfeydd y maent yn eu cynnal. Yn arbennig, mae physgota arbenigol neu am enghreifftiau rhagorol o bysgod breision yn rhoi pwyslais neilltuoel ar bysgodyn mawr aeddfed. Mae gwerth nifer o'n bysgodfeydd breision yn canolbwyntio ar safon y physgota a ddarparir gan bysgod mawrion, sydd wedi cymryd nifer o flynyddoedd i gyrraedd eu llawn dwf. Tra na fydd tynnu'r enghreifftiau mawrion hyn yn peryglu cadwraeth rhywogaethau pysgod, o bosibl, gall ostwng gwerth bysgodfeydd yn sylweddol i enweirwyr a pheri gostyngiad mewn incwm i glybiau a pherchenogion.

Ceir rhai hen is-ddeddfau lleol sy'n cyfyngu ar dynnu pysgod breision, ond maent yn anghyson gyda sail gyfreithiol amheus iddynt. Mae cynrychiolwyr genweirwyr wedi gofyn am is-ddeddfau cenedlaethol i reoleiddio tynnu pysgod breision, a chytunwn bod angen hyn.

Bu i ddiffygion yn y ddeddfwriaeth bysgodfeydd oedd eisoes yn bod rwystro'n hymgais flaenorol i gyflwyno is-ddeddfau tynnu pysgod breision cenedlaethol ym 1997. Bydd y Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir, a ddaw'n ddeddf yn ystod yr hydref, yn diwygio ein pwerau bysgodfeydd, gan ein caniatáu i gyflwyno is-ddeddfau newydd i wahardd neu gyfyngu ar yr arfer o dynnu pysgod breision. Bydd hefyd yn ehangu ein pwerau creu is-ddeddfau i rai rhywogaethau mudol eraill. Mae gan Gwangod yn benodol statws cadwraeth uchel ac felly mae'n rhaid ystyried y rhain o fewn terfynau'r is-ddeddfau.

Mae stociau llyswennod wedi dirywio'n sylweddol er 1980. Er iddynt, yn draddodiadol, gael eu cymryd gan bysgotwyr i'w bwyta, mae angen i ni ystyried cyflwyno cyfyngiadau ar dynnu llyswennod er mwyn cynorthwyo i atal y dirywiad hwn.

Yn fyr, mae angen is-ddeddfau cenedlaethol:

- fel bod rheolau cyffredin yn bodoli;
- i amddiffyn gwerth a phwysigrwydd pysgodfeydd breision;
- i ddiogelu rhywogaethau sydd o dan fygythiad – llyswennod a gwangod.

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

Byddai'n well gennym pe baech yn ymateb ar-lein. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gasglu a chrynhoi ymatebion yn gyflym a chywir. Gallwch ymateb ar-lein yn www.environment-agency.gov.uk/research/library/consultations/consultations.aspx

Fodd bynnag, os ydych yn dymuno anfon eich ymateb drwy'r post, dylid ei anfon i'r cyfeiriad canlynol os gwelwch yn dda:

Adrian Taylor, Rheolwr Polisi Pysgodfeydd
Asiantaeth yr Amgylchedd
Rio House
Waterside Drive, Aztec West
Almondsbury, Bryste/Bristol, BS32 4UD

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth i lunio is-ddeddfau pysgodfeydd newydd.

Byddwn yn cyhoeddi'r holl ymatebion wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben, oni bai eich bod wedi gofyn yn benodol i ni gadw eich ymateb yn gyfrinachol. Ni fyddwn yn cyhoeddi enwau ymatebwyr. Byddwn yn cyhoeddi enw sefydliad pan dderbynnir ymatebion ar ran sefydliadau. Nodwch ar eich ymateb os ydych am i ni ei drin yn gyfrinachol os gwelwch yn dda.

Os ydych yn ymateb ar-lein neu'n darparu cyfeiriad e-bost i ni, byddwn yn cydnabod eich ymateb ac yn anfon crynodeb atoch o'r ymatebion wedi i'r ymgynghoriad ddod i ben. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar ein gwefan.

Ymatebion cyfrinachol

Efallai y byddwn yn cyhoeddi neu'n datgelu'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Os ydych yn dymuno i ni drin eich gwybodaeth yn gyfrinachol, dylid bod yn ymwybodol, o dan y DdRhG, bod yna Gôd Ymarfer statudol sydd yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef, ac sy'n delio ag ymrwymïadau o ymddiriedaeth.

O ystyried hyn, byddai'n ddefnyddiol iawn pe baech yn egluro pam eich bod yn ystyried fod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Pe baem yn derbyn ymholiad i ddatgelu gwybodaeth, byddem yn ystyried eich eglurhad, ond ni allwn gynnig sicrwydd y gallwn gadw cyfrinachedd yn mhob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd a gynhrychir yn awtomatig gan eich system dechnoleg gwybodaeth, ohono'i hun, yn cael ei ystyried yn gyfrwymol ar Asiantaeth yr Amgylchedd.

Côd Ymarfer ar Ymgynghoriad

Rydym yn cynnwyl yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r amodau a osodwyd yng Nghôd Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghoriad.

Os oes gennych unrhyw ymholiad neu gwyn ynglŷn â sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r canlynol os gwelwch yn dda:

Cath Beaver, Cydlynnydd yr Ymgynghoriad
Asiantaeth yr Amgylchedd (*Environment Agency*)
Rio House
Waterside Drive, Aztec West
Almondsbury, Bryste/Bristol, BS32 4UD.
Ebst: cath.beaver@environment-agency.gov.uk

2. Y fframwaith cyfreithiol

Mae'r gyfraith yn rheoleiddio tynnu pysgod mewn tair ffordd:

- (a) **Deddfwriaeth pysgodfeydd (Deddf Pysgodfeydd Eog a Dŵr Croyw 1975)** yn amddiffyn stociau pysgod, a'r pysgodfeydd y maent yn eu cefnogi. Gellir defnyddio is-ddeddfau o dan y ddeddfwriaeth hon, yn amodol ar welliannau a wnaed gan y Mesur Morol, i wahardd neu gyfyngu ar yr arfer o dynnu pysgod gyda gwialen a llinell. Mae hyn yn seiliedig ar yr angen i amddiffyn pysgodfeydd. Ni sy'n gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth pysgodfeydd.
- (b) **Mae'r Ddeddf Dwyn 1968** yn cwmpasu pysgod mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, er bod pysgod yn cael eu hystyried yn gyffredinol yn wyllt ac felly ni ellir eu dwyn, ceir eithriadau i hyn. Mae pysgod sy'n gaeth o fewn dŵr llonydd, yn enwedig os ydynt wedi cael eu stocio, yn eiddo i rhywun, ac felly gellir eu dwyn. Yn gyffredinol, mae pysgod sydd yn y mwyafrif o ddyfroedd llonydd yn eiddo i rhywun a gellir eu dwyn. Nid yw pysgod mewn afonydd yn eiddo i neb, hyd yn oed os ydynt wedi'u stocio gan berchennog y bysgodfa, ac felly, ni ellir eu dwyn.
- (c) **Mae'r Ddeddf Dwyn 1968** hefyd yn cydnabod bod hawliau pysgota yn eiddo preifat, ac yn cynnwys trosedd benodol i'w hamddiffyn. Heb y drosedd benodol hon, ni fyddai pysgota mewn dyfroedd preifat yn anghyfreithiol oni bai bod pysgod wedi cael eu cymryd a gellid profi eu bod wedi eu dwyn – ac ar gyfer afonydd, mae hynny'n amhosibl. Felly, mae'n drosedd dan y Ddeddf Dwyn i *fynd â neu ddinistrio pysgod yn anghyfreithlon neu geisio mynd â neu ddinistrio pysgod*. Yn ymarferol, golyga hyn fod pysgota heb ganiatâd perchennog bysgodfa yn drosedd dwyn, hyd yn oed os na ddelir pysgod. Ond yn bwysicach, golyga hefyd bod mynd â nhw heb ganiatâd y perchennog yn lladrad, hyd yn oed os nad yw'r pysgod yn eiddo i neb (e.e. afonydd). Golyga hefyd lle bo caniatâd i bysgota, mae tynnu unrhyw bysgod yn ddibynnol ar dderbyn caniatâd gan y perchennog. Mae mynd â physgod heb y caniatâd hwnnw yn lladrad.

Mae hyn yn berthnasol i bob bysgodfa, ac eithrio'r mwyafrif o ddyfroedd llanw/morydiau, lle mae hawl cyhoeddus i bysgota (e.e. y Dafwys drwy Lundain).

Yr Heddlu sy'n gyfrifol am orfodi'r Ddeddf Dwyn.

Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae'r fframwaith cyfreithiol yn gymhleth. Gellir defnyddio'r ddeddf bysgodfeydd, sy'n gyfrifoldeb i ni, i reoleiddio tynnu pysgod lle mae'n effeithio ar stociau pysgod, a'r pysgodfeydd y maent yn eu cefnogi. Mae'r Ddeddf Dwyn, y mae'r Heddlu'n gyfrifol amdani, yn amddiffyn hawliau pysgota gan gynnwys tynnu pysgod heb ganiatâd y perchennog. Mae gan berchenogion pysgodfeydd yr hawl i fynnu nad yw unrhyw bysgod yn cael eu tynnu. Mae unrhyw achos sy'n mynd yn groes i reolau perchennogion pysgodfeydd yn achos o ddwyn.

Mae'r rhyngweithiad rhwng y ddwy ddeddf yma yn cyfyngu ar y cyfyngiadau y gallwn eu gwneud ac yn golygu hefyd bod un rheol ar gyfer yr holl ddyfroedd yn amhosibl. Rydym yn ystyried isod sut y gall rheolau gael eu cymhwyso i wahanol fathau o ddyfroedd.

3. Gwahanol fathau o dyfroedd

Dyfroedd llonydd

Gyda'r mwyafrif o ddyfroedd llonydd, mae'r pysgod yn eiddo i berchennog neu feddiannwr y bysgodfa. Mae ganddynt yr hawl i benderfynu a gaiff eu pysgod eu tynnu gan bysgotwyr sy'n pysgota gyda'u caniatâd hwy. Mae'n arferiad cyffredin i berchenogion pysgodfeydd brithyll dyfroedd llonydd osod "cyfyngiad bag" i bysgotwyr sy'n ymweld â nhw. Mae llawer o bysgodfeydd breision dyfroedd llonydd yn gweithredu cyfyngiad "dim o gwbl", sy'n golygu, na ellir tynnu unrhyw bysgod breision. Gall eraill ganiatáu mynd ag ychydig o bysgod, swm a nodwyd yn rheolau'r clwb neu'r bysgodfa. Mae torri rheolau perchennog y bysgodfa ynghylch tynnu pysgod yn lladrad ac mae gorfodi'r rheolau yn fater i'r heddlu.

Mae gweithredu is-ddeddfau Asiantaeth yr Amgylchedd i gyfyngu ar yr arfer o dynnu pysgod o ddyfroedd llonydd yn peri problem. Byddai'n gwrthdaro â hawl perchennogion i benderfynu a ellir tynnu pysgod. Mae'r pysgod yn eiddo i berchennog y bysgodfa, ac felly, byddai is-ddeddf o'r fath yn ceisio rhwystro person i fynd â rhywbeth sydd eisoes yn eiddo iddynt, neu'n gadael i eraill wneud hynny heb eu caniatâd. Byddai perchennogion pysgodfeydd dyfroedd llonydd yn colli eu hawl i reoli eu pysgodfeydd fel y mynnant.

Ni chaniateir cyflwyno is-ddeddfau a fyddai'n gwrthdaro â deddfau sy'n bodoli'n barod yn ogystal â hawliau perchennogion. Felly, awgrymwn na ddylai is-ddeddfau tynnu pysgod breision fod yn berthnasol i ddyfroedd llonydd, er efallai y bydd angen gwneud eithriad i lyswennod. Delir â hyn isod.

Afonydd

Mae pysgodfeydd afon yn wahanol i rai dyfroedd llonydd mewn dwy ffordd.

- (a) Nid yw pysgod mewn afonydd yn eiddo i neb, ac fel arfer gallant symud yn rhydd rhwng pysgodfeydd sydd â gwahanol berchenogion.
- (b) Gall gweithrediadau perchennog pysgodfa, wrth ganiatáu i bysgod gael eu cymryd, niweidio pysgodfeydd cyfagos.

Os bydd perchennog pysgodfa yn caniatáu i bysgod gael eu tynnu, gall hynny effeithio ar y stoc bysgod ehangach yn yr afon gyfan, a gall hefyd effeithio ar werth a pherfformiad pysgodfeydd cyfagos. Gall mynd â nifer fawr o bysgod gael effaith amlwg ar y stoc. Gall mynd â physgod enghreifftiol gwerthfawr ostwng gwerth y bysgodfa i bysgotwyr, ei gwerth economaidd i berchennog y bysgodfa, a gostwng llwyddiant bridio.

Mae'r rhain yn resymau da i gyflwyno cyfyngiadau is-ddeddfau ar dynnu pysgod breision o afonydd.

Dyfroedd eraill

Mae'r mwyafrif o ddyfroedd llanw yn bysgodfeydd "cyhoeddus". Mae hyn fel arfer i lawr yr afon o gyfyngiad y llanw, e.e. Teddington Lock ar Dafwys. Nid oes gan y dyfroedd hyn berchenogion pysgodfeydd ac felly mae'r ddadl dros gyfyngiadau is-ddeddfau yn fwy hyd yn oed nag i ddyfroedd eraill.

Mae yna rai dyfroedd llonydd mawrion nad ydynt o dan berchennogaeth sengl lle gall stociau pysgod symud yn rhydd i afonydd sy'n gysylltiedig â nhw. Mae Llyn Windermere a'r Llynnoedd yn enghreifftiau da. Awgrymwn y dylai cyfyngiadau is-ddeddfau gael eu gweithredu, a bod y dyfroedd hyn yn cael eu hadnabod a'u henwi o fewn yr is-ddeddf.

Mae gan rai dyfroedd llonydd gysylltiadau agored i afonydd, e.e. marinas cychod. Efallai bod ganddynt un perchennog, ond nid yw'r pysgod yn eiddo iddo am eu bod yn rhydd i symud rhwng dŵr llonydd a'r afon. Bydd llawer o ddyfroedd fel hyn a byddai eu henwi o fewn is-ddeddf, mae'n

debyg, yn anymarferol. Awgrymwn bod yr is-ddeddf yn disgrifio'r dyfroedd llonydd hyn fel rhai "anamgaeëdig" ac y dylid gosod cyfyngiadau.

Ystyrir rhai camlesi fel dyfroedd llonydd amgaeëdig, tra bo eraill yn ffurfio rhannau o afonydd. Wynebwyd yr un broblem wrth benderfynu a ddylai tymor gwaharddedig y pysgod breision gael ei gymhwyso i gamlesi. Dyw'r tymor gwaharddedig ond yn berthnasol i'r camlesi hynny sy'n afonydd. Awgrymwn ein bod yn mabwysiadu'r un drefn ac yn cyflwyno cyfyngiadau is-ddeddf i'r camlesi hynny sy'n ffurfio rhannau o afonydd.

4. Pam tynnu pysgod?

Fel egwyddor gyffredinol mae deddfwriaeth pysgodfeydd yn caniatáu tynnu pysgod trwy gyfraith, oni bai bod is-ddeddfau'n nodi'n wahanol. Sail unrhyw gyfyngiad is-ddeddf ydy amddiffyn stociau pysgod a'r pysgodfeydd y maent yn eu cefnogi. Ceir sawl mater i'w hystyried:

(a) Mynd â pysgod i'w bwyta

Hyd at yr 1950au, roedd hi'n gyffredin iawn mynd â pysgod breision i'w bwyta, ond y dyddiau hyn, nid yw hyn yn digwydd yn gyffredinol. Wrth i bysgota bras ddod yn fwy poblogaidd fel gweithgaredd hamdden, newidiodd agweddau a bellach mae'n beth arferol i ddychwelyd pysgod breision.

Noder fod penllwydion, a gymerir yn aml i'w bwyta, yn cael eu cynnwys o fewn terfynau'r ymgynghoriad hwn.

Os ydy pysgod am gael eu cymryd i'w bwyta, mae angen sicrhau na fydd hyn yn effeithio ar stociau neu ar berfformiad a gwerth pysgodfeydd.

(b) Cymryd pysgod fel abwyd

Mae pysgotwyr sy'n pysgota am benhwyaid neu ysglyfaethwyr eraill yn draddodiadol yn defnyddio pysgod bychain fel abwyd byw neu farw. Mae'n ddull cyfreithlon ac effeithiol o bysgota ac mae yna ddadl gref y dylid caniatáu i hyn barhau. Mae yna ddadl aml mor gref y dylid cyfyngu ar y nifer a maint y pysgod a gymerir ar gyfer abwyd fel nad yw'n niweidio pysgodfeydd. Noder **nad** ydym yn ystyried moeseg abwyd-byw yn yr ymgynghoriad hwn.

(c) Pysgod anfrodorol

Mae Draenogiaid cernog wedi ymsefydlu mewn rhai o'n hafonydd. O dro i dro, daw rhywogaethau anfrodorol eraill i'n hafonydd, e.e. cathbysgod Wels ac idiaid (orffiaid). Mae sildynnod di-fam wedi coloneiddio rhai draeniau lle maent bellach yn bla. Mae hwn yn fater anodd, oherwydd tra bod rhai wedi dod yn bla, mae'r draenogiaid cernog yn darparu pysgodfeydd gwerthfawr mewn rhai ardaloedd. Heb os, dylid tynnu rhai rhywogaethau anfrodorol pan ddelir hwy mewn afonydd, ond byddai'n afresymol mynnu bod pob rhywogaeth anfrodorol yn cael eu tynnu pan gânt eu dal.

(d) Llyswennod

Mae llyswennod wedi dirywio'n ddifrifol, ac mae gofyn i bob gwlad Ewropeaidd I weithredu yn awr o dan y Rheoliad Llyswennod Ewropeaidd newydd. Byddwn yn gweithredu'n bennaf i wella ymfudiad llyswennod mewn afonydd a chyfyngu ar bysgota llyswennod masnachol, ond mae'n rhaid i ni hefyd ystyried pysgota llyswennod fel adloniant. Os ydym am barhau i ganiatáu dal llyswennod gyda gwialen a llinell, rhaid i ni adrodd am y dalfeydd hyn i Ewrop ochr yn ochr â dalfeydd masnachol. I wneud hyn, byddai angen i ni gyflwyno system adrodd am ddalfeydd i bysgotwyr er mwyn adrodd am ddalfeydd llyswennod. Yn draddodiadol, aethpwyd â llyswennod "ar gyfer y badell ffrio", ond bellach credwn mai nifer fechan a gymerir. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r dirywiad mewn stociau. Rydym yn cynnig gwaharddiad llwyr ar dynnu llyswennod gyda gwialen a llinell ym mhob dŵr (bydd dal a rhyddhau yn parhau i gael ei ganiatáu). Noder bod ein cyfrifoldeb am llyswennod yn ymestyn tua'r môr hyd at chwe milltir forwrol ac felly byddai gwaharddiad o'r fath yn cynnwys morydiau a dyfroedd arfordirol.

Ar gyfer llyswennod, credwn fod cyfiawnhad dros gyflwyno is-ddeddf ar gyfer dyfroedd llonydd. Byddai unrhyw llyswennod sy'n bresennol mewn dyfroedd llonydd wedi cyrraedd trwy ymfudiad o'r môr fel llyswennod ifainc ac yn rhan o stoc Ewropeaidd, ac a fyddant yn y pen draw yn cyfrannu iddo fel epilwyr pan yn ymfudo yn ôl i'r môr.

(e) Rhywogaethau prin ac wedi'u diogelu

Mae'n drosedd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i ddal neu ddinistrio Herlod. Nid yw ei gefnder mwy cyffredin, y Gwangen, wedi'i amddiffyn yn y modd hwn, ond mae Defra/LICC yn ystyried argymhelliad ar hyn o bryd gan Gyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (CBCN), y dylid eu gwarchod. Pe bai'n dod yn anghyfreithlon i fynd â neu ddinistrio'r ddwy rywogaeth ym mhob dŵr, byddai o gymorth i wneud hyn yn glir i bysgotwyr drwy atgyfnerthu gydag is-ddeddf bysgodfeydd sy'n gwahardd eu tynnu drwy bysgota. Hyd yn oed pe bai argymhelliad y CBCN yn cael ei wrthod, mae is-ddeddf atgyferthol yn gwneud synnwyr oherwydd mae'n anodd iawn gwahaniaethu rhwng y ddwy rywogaeth.

(f) Tynnu pysgod i'w stocio

Caiff hyn ei reoleiddio eisoes ac nid oes angen ei gynnwys mewn is-ddeddfau newydd. Mae angen caniatâd Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn stocio unrhyw bysgod i mewn i ddyfroedd mewndirol. Wrth ystyried unrhyw gynnig i stocio pysgod a gymerwyd o'r gwyllt, byddwn yn asesu'r niwed posibl i'r dŵr tarddiad. Fel arfer, nid ydym yn caniatáu cymryd pysgod o afonydd ar gyfer eu stocio, gan gynnwys cymryd pysgod gyda gwialen a llinell.

5. Crynodeb ac Opsiynau

Nid ydym yn credu bod gwaharddiad llwyr ar dynnu pysgod breision yn realistig. O ganlyniad i'r rhesymau uchod, ni ellir cyflwyno gwaharddiad neu gyfyngiadau i'r mwyafrif o ddyfroedd llonydd. Awgrymwn y strwythur canlynol:

- Rhaid dychwelyd unrhyw lyswennod neu gwangod a ddelir gyda gwialen a llinell mewn unrhyw ddŵr.
- Rhaid dychwelyd pob pysgodyn bras (gan gynnwys penllwyd) a gaiff ei ddal gyda gwialen a llinell o afonydd, nentydd, draeniau (a dyfroedd llonydd mawrion a enwyd yn benodol) – gydag eithriadau posibl yn seiliedig ar:
 - rhywogaethau/niferoedd/meintiau
 - anfrodorol

Efallai y bydd angen i'r is-ddeddf ddiffinio dyfroedd amgaeedig ac anamgaeedig.

Mae'n holl bwysig cydnabod bod unrhyw gyfyngiadau a osodir mewn is-ddeddfau pysgodfeydd, yn parhau i ddibynnu ar ganiatâd perchennog y bysgodfa. Mae gan berchennog y bysgodfa yr hawl i benu cyfyngiad tynnach, neu hyd yn oed waharddiad llwyr – gydag, o bosibl, yr eithriad y dylid tynnu rhai anfrodorol. Ond mae hefyd yn bwysig deall os ydy perchennog pysgodfa yn penu cyfyngiadau tynnach, neu waharddiad llwyr, ni allwn orfodi'r rhain, gan fod torri'r rheolau hyn yn fater o ladrad. Mae hyn yn berthnasol hefyd i unrhyw gyfyngiad a osodir gan berchenogion pysgodfeydd ar ddyfroedd llonydd.

6. Eich ymateb chi

Gallwch ymateb ar-lein i'r ymgynghoriad hwn yn –

<http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/consultations/36989.aspx>

Os gwell gennych ymateb drwy'r post, llanwch y ffurflen hon a gyrrwch hi at –

Adrian Taylor
Fisheries Policy Manager
Environment Agency
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Bristol BS32 4UD


Manylion personol

Enw –	
Corff (os yn berthnasol) –	
Cyfeiriad –	
E-bost –	
Maes eich diddordeb chi* –	Ticiwch un yn unig
Genweirio – unigolyn	
Genweirio – clwb	
Perchennog y Pysgodfa	
Corff pysgodfeydd	
Corff cadwraeth	
Corff Anllywodraethol arall	
Aelod o'r cyhoedd cyffredinol	
Arall (dywedwch beth yn union)	

Cwestiynau

1	Cymhwysiad i ddyfroedd agored	
1.a	Ydych chi'n cytuno y dylai is-ddeddfau tynnu pysgod fod yn berthnasol i ddyfroedd anamgaeedig yn unig (afonydd, nentydd a draeniau yn bennaf)?	Ydw/ Nac Ydw
1.b	Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.	
1.c	Oes gennych unrhyw awgrymiadau am ddyfroedd llonydd dan aml-berchenogaeth neu gysylltiadau afonydd agored y dylai'r is-ddeddfau gael eu cymhwyso iddyn nhw?	Ydw/ Nac Ydw
1.d	Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.	
2.	Pysgod breision	
2.a	Ydych chi'n cytuno y dylai pysgod breision (gan gynnwys penllwydion) a ddaliwyd gan wialen a llinell o ddyfroedd anamgaeedig (afonydd, nentydd a draeniau yn bennaf) gael eu dychwelyd?	Ydw/ Nac Ydw
2.b	Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.	
2.c	Ydych chi'n cefnogi eithriadau posibl i hyn?	Ydw/ Nac Ydw
2.d	Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda. Os ydych yn cefnogi eithriadau, rhestrwch rywogaethau/niferoedd/meintiau a rhowch eich rhesymau os gwelwch yn dda.	
3	Anfrodorol	
3.a	Ydych chi'n cytuno na ddylai pysgod anfrodorol a gaiff eu dal gyda gwialen a llinell o ddyfroedd anamgaeedig gael eu dychwelyd?	Ydw/ Nac Ydw
3.b	Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.	

3.c	Ydych chi'n croesawu eithriadau posibl i hyn?	Ydw/ Nac Ydw
3.d	Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.	
4	Llyswennod	
4.a	Ydych chi'n cytuno y dylai llyswennod a gaiff eu dal gyda gwialen a llinell o unrhyw ddyfroedd (gan gynnwys morydiau a dyfroedd arfordirol) gael eu dychwelyd?	Ydw/ Nac Ydw
4.b	Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.	
5	Gwangod	
5.a	Ydych chi'n cytuno y dylai gwangod a gaiff eu dal gyda gwialen a llinell o unrhyw ddyfroedd (gan gynnwys morydiau a dyfroedd arfordirol) gael eu dychwelyd?	Ydw/ Nac Ydw
5.b	Eglurwch eich ateb os gwelwch yn dda.	
6	Arall	
6.a	Darparwch unrhyw sylwadau ychwanegol os gwelwch yn dda.	



7. Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd ymatebion yn gynhorthwy i lunio ein cynigion terfynol ar gyfer yr is-ddeddfu. Wedi i'r Mesur Mynediad at y Môr a'r Arfordir gael ei basio yn ystod hydref 2009, byddwn yn hysbysebu'r is-ddeddfau arfaethedig. Gellir cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig. Yn dilyn hyn, disgwylir cyflwyno'r is-ddeddfau tynnu pysgod newydd yn gynnar yn 2010.

**Hoffech chi ddarganfod mwy amdantom ni,
neu am eich amgylchedd?**

**Yna, galwch ni ar
08708 506 506*** (Llun-Gwener 8-6)

e-bost

enquiries@environment-agency.gov.uk

neu ymwelwch â'n gwefan

www.environment-agency.gov.uk

Ilinell ddigwyddiadau 0800 80 70 60 (24awr)

Ilinell llifogydd 0845 988 1188

*** Bydd cost galwad oddeutu: 8c yn ogystal â 6c y funud (Ilinell ddaearol safonol).
Noder os gwelwch yn dda y bydd costau'n amrywio rhwng gwahanol ddarparwyr ffôn**



Yr amgylchedd yn gyntaf: Argreffir y cyhoeddiad hwn ar bapur wedi ei wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd eisoes. Defnyddir isgynhyrchion gwneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrtaith, er mwyn gwneud sment a chynhyrchu trydan.



Asiantaeth yr
Amgylchedd Cymru
Environment
Agency Wales

cyfoethogi... gwella... glanhau... adfer...
newid... mynd i'r afael... amddiffyn... lleihau...
crëa le gwell... dylanwadu... ysbrydoli...
cynghori... rheoli... addasu

Removal of fish by rod and line

National fisheries byelaw consultation

Starting Date: 22 June 2009

Closing Date: 14 September 2009

We are the Environment Agency. It's our job to look after your environment and make it **a better place** - for you, and for future generations.

